Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Cyllid cyfalaf digidol ar gyfer sefydliadau addysg bellach yn 2026/27

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14 Mai 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/18 |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol |
| **Ymateber erbyn:** | 10 Chwefror 2027 |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Rebecca Johnson \| dysgudigidol@medr.cymru |

**Crynodeb:**

Mae'r ddogfen hon yn nodi dyraniadau cyllid cyfalaf digidol ar gyfer sefydliadau addysg bellach, yn darparu canllawiau ynghylch defnyddio cyllid ac yn nodi gofynion o ran adroddiadau a thystiolaeth.

Caiff dyraniadau cyllid ar gyfer pob sefydliad eu nodi yn **Atodiad A**.

**Graddfeydd amser ar gyfer Blwyddyn 1 (blwyddyn academaidd 2026/27):**

| Amseriad | Carreg filltir neu gam gweithredu |
|---|---|
| Tua 18 Rhagfyr 2026 | Bydd taliad cyfalaf interim (50% o'r dyraniad) yn cael ei brosesu yn ystod mis Rhagfyr |
| Erbyn 10 Chwefror 2027 | Cynllun buddsoddi cyfalaf digidol tair blynedd yn ofynnol gan bob sefydliad (**Atodiad B**) |
| Tua 19 Mawrth 2027 | Yn amodol ar gael cynlluniau buddsoddi cyfalaf digidol, bydd y 50% sy'n weddill o'r dyraniad cyfalaf yn cael ei brosesu yn ystod mis Mawrth |
| Erbyn 21 Gorffennaf 2027 | Adroddiad gwariant diwedd blwyddyn yn ofynnol (**Atodiad C** i gael ei ychwanegu yn gynnar yn 2027) |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cyflwyniad

1. Roedd setliad cyllid Llywodraeth Cymru i Medr ar gyfer 2025-26 yn cynnwys cyllid cyfalaf digidol o £3 miliwn wedi'i glustnodi ar gyfer AB. Mae'r cyllid hwn wedi cael ei gynnal ar gyfer 2026-27 ac, yn amodol ar gadarnhad mewn cyllidebau yn y dyfodol, mae disgwyl i hyn ddod yn gyllid parhaus.

2. Mae'r cyllid hwn wedi'i fwriadu i gynorthwyo sefydliadau AB i ddatblygu dulliau tymor hwy a mwy strategol o fuddsoddi mewn offer, dyfeisiau a seilwaith digidol (sy'n ofynnol i alluogi cyflawni digidol) ac o gynnal gwasanaethau a systemau digidol cadarn a chydnerth. Mae'r nodau hyn yn cyd-fynd â Gweledigaeth a Nodau'r fframwaith strategol Digidol 2030 ar gyfer dysgu digidol, sydd i fod i gael ei ddiweddaru yn y misoedd nesaf.

3. Rydym yn gofyn i bob sefydliad AB ddatblygu a chyflwyno cynllun buddsoddi cyfalaf digidol tair blynedd erbyn 10 Chwefror 2027. Bydd dyraniadau cyllid cyfalaf digidol yn y dyfodol hyd at a chan gynnwys blwyddyn academaidd 2028/29 yn cael eu dyfarnu ar sail y cynllun hwn.

## Dyraniadau

4. Mae'r dyraniadau cyllid cyfalaf digidol ar gyfer pob sefydliad (a nodir yn **Atodiad A**) ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27. Mae'r dyraniadau wedi'u seilio ar Ddyraniadau Cyllid Prif Ffrwd AB (Amser llawn a Rhan-amser ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 heb godiadau). Pennwyd dyraniad sylfaenol o £30,000 ar gyfer pob sefydliad ac eithrio Addysg Oedolion Cymru (gan fod ei ystadau ffisegol yn llai a bod angen llai o gyllid cyfalaf).

5. At ddibenion cynllunio, dylai sefydliadau nodi (yn amodol ar gadw'r gyllideb ar y cyfan ar £3 miliwn) bod disgwyl i'r dyraniadau hyn barhau ar yr un lefel am y cyfnod o dair blynedd.

## Cynlluniau buddsoddi cyfalaf digidol

6. Mae'n ofynnol i bob sefydliad AB a restrir yn **Atodiad A** ddatblygu a chyflwyno cynllun buddsoddi cyfalaf digidol tair blynedd i dysgudigidol@medr.cymru erbyn 10 Chwefror 2027.

7. Dylai'r cynllun hwn dynnu ar raddfeydd amser a cherrig milltir allweddol a adnabuwyd yng nghynlluniau rheoli asedau digidol eich sefydliad a'i gylchoedd hysbys ar gyfer amnewid neu uwchraddio dyfeisiau digidol, offer digidol a/neu seilwaith digidol.

8. Rydym yn disgwyl y bydd hi'n bosibl rhagweld cyfran fawr o'ch gwariant cyfalaf digidol ymlaen law. Fodd bynnag, rydym yn deall bod angen cadw peth hyblygrwydd i'ch sefydliad ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg a gofynion sy'n newid yn ystod y cyfnod o dair blynedd hefyd.

9. Gall hyd at 20% o ddyraniad cyfalaf eich sefydliad gael ei neilltuo ar gyfer gwariant mwy adweithiol yn ystod y flwyddyn; yn enwedig dan y categorïau 'profiadau dysgu

ac addysgu' a 'cefnogi arloesi'. Ar gyfer y gwariant adweithiol hwn, nid oes angen i chi nodi pryniannau penodol ymlaen llaw wrth ddatblygu eich cynllun.

10. Dylai gweddill dyraniad eich sefydliad gael ei aseinio i wariant arfaethedig.

11. Os oes unrhyw brosiectau arloesi sylweddol yn yr arfaeth yn ystod y cyfnod hwn (a fydd yn galw am symiau mwy o gyllid cyfalaf y tu hwnt i'r 20%), dylai hyn gael ei adnabod yng nghynllun eich sefydliad. Nid ydym yn disgwyl cynllun prosiect manwl, ond rhowch amlinelliad bras o'ch bwriadau a phrif nodau eich prosiect arloesi.

12. Dylai cynlluniau gadarnhau sut y bydd y buddsoddiad yn:
    - Cyd-fynd â Gweledigaeth a Nodau Digidol 2030
    - Ymateb i anghenion dysgwyr ac adborth gan ddysgwyr
    - Parhau i wreiddio partneriaeth gymdeithasol a dulliau o geisio adborth gan staff (yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw effeithiau ar lwyth gwaith) a chynnwys staff mewn prosesau penderfynu digidol.

**Canllawiau ynghylch defnyddio cyllid cyfalaf digidol**

13. Darperir canllawiau ynghylch gwariant cymwys ac anghymwys yn yr adran hon. Os ydych yn ansicr a yw eich defnydd arfaethedig o gyllid yn gymwys, cysylltwch â dysgudigidol@medr.cymru i gael cyngor.

14. Mae'r cyllid a ddyrennir gan Medr yn cael ei ddarparu o dan Adran 97 o *Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022*, ac yn ddarostyngedig i'r amodau cyffredinol ar gyfer talu cyllid a nodir yn *Nhelerau ac Amodau Grant Medr ar gyfer 2026/2027*.

15. **Gellir cynnwys** y canlynol fel gwariant cyfalaf cymwys:

| | | |
|---|---|---|
| **C1** | **Dyfeisiau digidol ac offer digidol** | • Mynd ati mewn ffordd wedi'i chynllunio i amnewid dyfeisiau a/neu offer sy'n cyrraedd diwedd eu hoes<br>• Uwchraddio dyfeisiau a/neu offer digidol i sicrhau cydnawsedd â gofynion sy'n newid ar gyfer meddalwedd craidd, meddalwedd arbenigol a/neu feddalwedd o'r un safon â'r diwydiant<br>• Gofynion buddsoddi arfaethedig eraill yn unol â pholisïau a chynlluniau rheoli asedau digidol |
| **C2** | **Seiberddiogelwch a chydnerthedd digidol** | • Cynnal cylchoedd buddsoddi cyfalaf mewn seilwaith digidol tanategol sy'n galluogi cyflwyno dysgu ac addysgu digidol<br>• Gwella cyflymder, sefydlogrwydd a dibynadwyedd cysylltedd trwy uwchraddio mynediad WiFi a chysylltiadau rhwydwaith<br>• Gofynion buddsoddi cyfalaf sy'n gysylltiedig â storio data'n ddiogel |
| **C3** | **Profiadau dysgu ac addysgu** | Prynu a/neu uwchraddio offer digidol:<br>• Ar gyfer unigolion â gofynion hygyrchedd a/neu anghenion dysgu ychwanegol |

| | | |
|---|---|---|
| | | • I ateb gofynion arbenigol y diwydiant a pharatoi dysgwyr ar gyfer disgwyliadau'r gweithle yn y dyfodol<br>• I wella'r profiad dysgu a hwyluso defnydd o dechnoleg ddigidol mewn mannau dysgu ac addysgu<br>• I gynhyrchu adnoddau dysgu digidol amlgyfrwng o ansawdd uchel a fydd yn cael eu dosbarthu fel ased sefydliadol ac yn addas i'w defnyddio mewn mwy nag un flwyddyn academaidd<br>• I integreiddio technolegau newydd yn dilyn gweithgarwch peilota blaenorol |
| **C4** | **Cefnogi arloesi** | • I brynu offer digidol i beilota defnydd mewn dysgu ac addysgu, a/neu beilota technolegau newydd<br>• Ffioedd sefydlog, na ellir eu had-dalu gan gyflenwr allanol lle mae sefydliad yn ymchwilio i ddatrysiadau offer a seilwaith digidol hyfyw a/neu'n eu peilota i fwydo i mewn i gynllunio tymor hwy<br>• Costau 'untro' uniongyrchol am sefydlu newidiadau sylweddol i systemau, platfformau neu dechnolegau digidol<br>• Datblygu, profi a gweithredu ffyrdd o ddefnyddio data'n effeithiol i ddwyn budd i ddysgwyr a chefnogi dysgu ac addysgu |

16. **Ni ellir** defnyddio cyllid cyfalaf ar gyfer:

- Gwariant nad yw'n wariant cyfalaf y tu hwnt i gwmpas safonau cyfrifyddu ar gyfer asedau sefydlog a pholisi cyfalafu eich sefydliad
- Costau rheolaidd nad ydynt yn gyfalaf, fel costau staff ar gyfer swyddi parhaol); costau trwyddedu parhaus ar gyfer tanysgrifiadau i gael mynediad at adnoddau neu feddalwedd digidol
- Hyfforddiant neu ddigwyddiadau i staff neu ddysgwyr

## Monitro a thalu cyllid

17. Bydd taliadau'n cael eu hamserlennu mewn dau randaliad cyfartal: yn ystod mis Rhagfyr 2026 a mis Mawrth 2027. Mae cynlluniau buddsoddi cyfalaf tair blynedd yn ofynnol erbyn 10 Chwefror 2027; cyn y telir yr ail randaliad cyllid.

18. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27, bydd hi'n ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth am wariant erbyn 21 Gorffennaf 2027, gan gadarnhau swm gwirioneddol y gwariant y bydd eich sefydliad yn ei ysgwyddo erbyn 31 Gorffennaf 2027. Os yw'r wybodaeth hon yn cadarnhau cyllid cyfalaf heb ei wario, bydd swyddogion Medr yn cysylltu â Chyfarwyddwr Cyllid eich sefydliad i adhawlio'r swm yma. Bydd **Atodiad C** (templed ar gyfer ffurflen diwedd blwyddyn) yn cael ei ychwanegu yn gynnar yn 2027.

19. Ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol, rydym yn bwriadu datblygu cylch adrodd rheolaidd a fframwaith gwerthuso mewn cysylltiad â'r cyllid parhaus hwn. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar adeg briodol er mwyn adlewyrchu:

- Y fframwaith strategol Digidol 2030 wedi'i ddiweddaru ar gyfer dysgu digidol

- Gofynion data ac adrodd presennol dan drefniadau rheoleiddio newydd Medr (h.y. i osgoi dyblygu)
- Cod Ymgysylltu â Dysgwyr newydd Medr

## Rhagor o wybodaeth

20. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i Rebecca Johnson (dysgudigidol@medr.cymru).

**Medr/2026/18: Atodiad A**

## Cyllid cyfalaf digidol ar gyfer sefydliadau addysg bellach: Dyraniadau

At ddibenion cynllunio, dylai'r dyraniad hwn a gadarnhawyd ar gyfer Blwyddyn 1 (2026/27) gael ei ddefnyddio fel lefelau cyllid dangosol ar gyfer Blwyddyn 2 (Blwyddyn Academaidd 2027/28) a Blwyddyn 3 (Blwyddyn Academaidd 2028/29) hefyd.

| Sefydliad AB | Dyraniad Blwyddyn 1 (Blwyddyn Academaidd 2026/27) |
|---|---:|
| Addysg Oedolion Cymru | £50,000 |
| Coleg Penybont | £166,000 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | £349,000 |
| Coleg Cambria | £365,000 |
| Coleg Gwent | £403,000 |
| Coleg Sir Gâr | £205,000 |
| Coleg y Cymoedd | £302,000 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | £257,000 |
| Grŵp Llandrillo Menai | £329,000 |
| Grŵp NPTC Group | £231,000 |
| Y Coleg Merthyr Tudful | £116,000 |
| Coleg Sir Benfro | £137,000 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | £90,000 |
| **Cyfanswm** | **£3 miliwn** |

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Medr/2026/18: Atodiad B

### Cyllid cyfalaf digidol ar gyfer sefydliadau addysg bellach

### Templed ar gyfer cynllun buddsoddi cyfalaf digidol

| **Manylion derbynnydd y cyllid:** | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | |
| **Cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau:**<br>*Enw, cyfeiriad e-bost* | |

| **Dyraniad cyllid cyfalaf:** | |
|---|---|
| **Blwyddyn 1: Dyraniad Blwyddyn Academaidd 2026/27**<br>At ddibenion cynllunio, dylai'r dyraniad dangosol hwn gael ei ddefnyddio ar gyfer Blwyddyn 2 (Blwyddyn Academaidd 2027/28) a Blwyddyn 3 (Blwyddyn Academaidd 2028/29) hefyd. | **£** |

Cyfeiriwch at y canllawiau ynghylch defnyddio'r cyllid hwn a'r gofynion ar gyfer y cynllun buddsoddi tair blynedd hwn wrth gwblhau'r templed hwn.

Rhaid i gynlluniau wedi'u cwblhau gael eu cyflwyno i dysgudigidol@medr.cymru erbyn 10 Chwefror 2027. Mae gofyn cyflwyno'r ffurflen hon cyn y bydd yr ail randaliad cyllid cyfalaf ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 yn cael ei dalu i'ch sefydliad.

## Adran 1: Aliniad strategol

Rhowch amlinelliad byr o sut y mae'r gwariant arfaethedig a nodir yn y cynllun hwn yn ategu Gweledigaeth a Nodau Digidol 2030:

| |
|---|
| |

Nodwch pa gynlluniau neu ffynonellau tystiolaeth mewnol allweddol sydd wedi dylanwadu ar eich buddsoddiad cyfalaf arfaethedig dros y cyfnod hwn o dair blynedd (e.e. strategaeth ddigidol; cynllun rheoli asedau digidol; cylchoedd buddsoddi mewn seilwaith digidol):

| |
|---|
| |

## Adran 2: Dulliau o ymgysylltu â dysgwyr a staff

Rhowch amlinelliad byr o unrhyw adborth allweddol gan ddysgwyr sydd wedi dylanwadu ar eich cynlluniau ar gyfer gwariant cyfalaf yn ystod y cyfnod hwn.

| |
|---|
| |

Sut fydd dysgwyr neu gynrychiolwyr dysgwyr yn cael eu cynnwys mewn unrhyw weithgarwch i beilota, profi, gwerthuso neu gefnogi'r broses o gyflwyno offer, teclynnau neu systemau digidol newydd sydd wedi'u bwriadu iddynt hwy eu defnyddio?

| |
|---|
| |

| |
|---|
| |

Rhowch amlinelliad byr o sut y byddwch yn ymgysylltu â chynrychiolwyr undebau llafur ac aelodau eraill o staff ynghylch goblygiadau ar gyfer llwyth gwaith, a gofynion hyfforddiant neu gymorth sy'n gysylltiedig â chyflwyno offer, teclynnau neu systemau digidol newydd:

| |
|---|
| |

Amlygwch unrhyw enghreifftiau penodol lle bydd staff neu gynrychiolwyr staff yn cael eu cynnwys mewn gweithgarwch peilota neu brofi, a/neu wrth fynd ati ar y cyd i ddatblygu polisïau sy'n gysylltiedig â datblygiadau a gyllidir:

| |
|---|
| |

## Adran 3: Defnydd bwriadedig o gyllid cyfalaf

Yn yr adran hon, rydym yn gofyn i chi ddarparu amlinelliad byr o sut y mae eich sefydliad yn bwriadu defnyddio eich cyllid cyfalaf ym mhob blwyddyn.

Yn ein canllawiau, fe wnaethom nodi y gallai hyd at 20% o ddyraniad eich sefydliad gael ei neilltuo'n 'awtomatig' ar gyfer gwariant adweithiol. Mae llinell wedi cael ei hychwanegu at y diben hwn. Os nad ydych yn dymuno neilltuo cyllid at y diben hwn, dilëwch y testun cyfredol neu teipiwch drosto. Os ydych yn dymuno neilltuo canran lai o'ch dyraniad, addaswch y swm canrannol.

Os ydych yn dymuno neilltuo canran fwy o'ch dyraniad ar gyfer prosiect arloesi a ragwelir, cynhwyswch hyn mewn rhes yn y tabl ar gyfer y flwyddyn berthnasol, yna darparwch amlinelliad byr o'ch bwriadau yn adran 4.

**Blwyddyn 1: Blwyddyn Academaidd 2026/27**

| **Defnydd arfaethedig o'r arian (amlinelliad byr)**<br>*Un prosiect/gweithgaredd neu fath o wariant y rhes* | **Categori gwariant perthnasol (C1 i C4)** | **Cyllideb a amcangyfrifir (fesul rhes)** | |
|---|---|---|---|
| | | **% y dyraniad** | **Bras amcan o'r swm** |
| | | % | £ |
| | | % | £ |
| | | % | £ |
| | | % | £ |
| | | % | £ |
| | | % | £ |
| | | % | £ |
| | | % | £ |
| Arian a neilltuir ar gyfer gwariant adweithiol yn ystod y flwyddyn | Amh. | 20% | £ |
| **Cyfanswm** *(sylwer: dylai'r cyfanswm % fod yn 100%)* | | **%** | **£** |

*Ychwanegwch resi eraill os oes angen*

Ar gyfer blynyddoedd 2 a 3, rydym yn rhagweld y dylai fod yn bosibl adnabod rhai gofynion buddsoddi allweddol ymlaen llaw (yn seiliedig ar gylchoedd sefydledig ar gyfer diweddaru neu amnewid offer digidol a/neu elfennau o seilwaith digidol). Fodd bynnag, rydym yn deall y gall blaenoriaethau a chostau newid dros gymaint â hyn o amser, felly byddwn yn gofyn i chi ein hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau sylweddol mewn adroddiadau yn y dyfodol.

**Blwyddyn 2: Blwyddyn Academaidd 2027/28**

| **Defnydd arfaethedig o'r arian (amlinelliad byr)**<br>*Un prosiect/gweithgaredd neu fath o wariant y rhes* | **Categori gwariant perthnasol (C1 i C4)** | **Cyllideb a amcangyfrifir (fesul rhes)** | |
|---|---|---|---|
| | | **% y dyraniad** | **Bras amcan o'r swm** |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| Arian a neilltuir ar gyfer gwariant adweithiol yn ystod y flwyddyn | Amh. | 20% | £ |
| **Cyfanswm** *(sylwer: dylai'r cyfanswm % fod yn 100%)* | | | **£** |

*Ychwanegwch resi eraill os oes angen*

**Blwyddyn 3: Blwyddyn Academaidd 2028/29**

| **Defnydd arfaethedig o'r arian (amlinelliad byr)**<br>*Un prosiect/gweithgaredd neu fath o wariant y rhes* | **Categori gwariant perthnasol (C1 i C4)** | **Cyllideb a amcangyfrifir (fesul rhes)** | |
|---|---|---|---|
| | | **% y dyraniad** | **Bras amcan o'r swm** |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| | | | £ |
| Arian a neilltuir ar gyfer gwariant adweithiol yn ystod y flwyddyn | Amh. | 20% | £ |
| **Cyfanswm** *(sylwer: dylai'r cyfanswm % fod yn 100%)* | | | **£** |

*Ychwanegwch resi eraill os oes angen*

## Adran 4: Prosiectau arloesi arfaethedig

***Dim ond os ydych wedi cynnwys prosiectau arloesi arfaethedig (y tu hwnt i'r 20% y gellir ei neilltuo ar gyfer gwariant adweithiol) yn adran 3 y mae angen cwblhau'r adran hon.***

Cwblhewch un set o flychau fesul prosiect. Os oes gennych fwy na dau brosiect yn ystod y cyfnod o dair blynedd, copïwch a gludwch y blychau gymaint o weithiau ag y mae angen.

Nid ydym yn gofyn am lawer o fanylder, gan ein bod yn deall y gall gwaith i gynllunio prosiectau fod yn ei gamau cynnar iawn ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 yn arbennig.

<table>
<tr><td>Teitl neu bwnc y prosiect:</td><td></td></tr>
<tr><td>Amseriad (pa flwyddyn/blynyddoedd)</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Eich bwriadau ar gyfer y prosiect hwn:<br>• Beth yw ffocws bwriadedig eich prosiect? (e.e. pa angen neu fater y mae arnoch eisiau ymdrin ag ef; pa declyn neu dechnoleg fyddwch chi'n ei (h)archwilio?)<br>• Rhowch amlinelliad byr o unrhyw brif nodau a adnabuwyd yn ystod gwaith cynnar i gynllunio eich prosiect</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>Teitl neu bwnc y prosiect:</td><td></td></tr>
<tr><td>Amseriad (pa flwyddyn/blynyddoedd)</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Eich bwriadau ar gyfer y prosiect hwn:<br>• Beth yw ffocws bwriadedig eich prosiect? (e.e. pa angen neu fater y mae arnoch eisiau ymdrin ag ef; pa offeryn neu dechnoleg fyddwch chi'n ei (h)archwilio?)<br>• Rhowch amlinelliad byr o unrhyw brif nodau a adnabuwyd yn ystod gwaith cynnar i gynllunio eich prosiect</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
</table>

## Cyllid cyfalaf digidol ar gyfer sefydliadau addysg bellach:

## Templed ar gyfer adroddiad gwariant diwedd blwyddyn

I'w ychwanegu'n gynnar yn 2027

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government